



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Sirol Llanfair ym Muallt,
Heol yr Ysbyty,
Llanfair ym Muallt,
Powys
LD2 3GA**

Dyddiad yr arolygiad: Mis Gorffennaf 2011

gan

Dr David Gareth Evans

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|-------------------|--|
| Rhagorol | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| Da | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| Digonol | Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella |
| Anfoddhaol | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Sirol Llanfair ym Muallt yn ysgol ddwyieithog, ddwy ffrwd fawr sy'n gwasanaethu tref Llanfair ym Muallt a'r ardal o amgylch. Er bod y mwyafrif mawr o ddisgyblion yn byw'n lleol, mae lleiafrif sylweddol, yn enwedig y rhai sy'n deisyfu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, yn teithio i fynychu'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal ddisgrifir fel naill ai'n llewyrchus nac ychwaith yn economaidd difreintiedig. Mae pump y cant o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae hyn yn llawer is na chyfartaleddau Cymru a lleol.

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth ar gyfer disgyblion o oedran 3-11. Mae 323 o ddisgyblion llawn amser ar y gofrestr, gan gynnwys 41 o blant meithrin. Mae niferoedd wedi codi cryn lawer dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r ysgol ar hyn o bryd wedi ei gordanysgrifio.

Trefnir yr ysgol i 13 dosbarth, pump ohonynt yn gyfrwng Cymraeg ac wyth yn gyfrwng Saesneg. Mae tri deg wyth y cant o'r disgyblion wedi dewis cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Llanfair ym Muallt yn ardal Saesneg ei hiaith yn bennaf a dim ond pump y cant o ddisgyblion sy'n dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg ar yr aelwyd. Mae pump o ddisgyblion yn derbyn cymorth ar gyfer dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes yr un disgybl dan ofal yr awdurdod addysg.

Mae un deg pedwar o athrawon llawn amser, tri athro rhan amser a phedwar ar ddeg o gymorthyddion dosbarth. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Mis Medi 2007. Mae Dosbarth Cynnal Dysgu Ardal (DCDA) yn yr ysgol sy'n darparu ar gyfer disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig o ddalgylch eang. Yn gyfan gwbl, mae 17 y cant o ddisgyblion yn yr ysgol gydag anghenion addysgol arbennig, ffigwr sydd ond ychydig yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mis Mai 2005.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Sirol Llanfair ym Muallt yw £3151 sy'n cymharu gydag uchafswm o £11,812 ac isafswm o £2891 ar gyfer ysgolion cynradd ym Mhowys. Hon yw'r ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 85fed uchaf o'r 101 ysgol gynradd ym Mhowys.

Crynodeb

| | |
|---------------------------------------|-----------|
| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- bron pob un disgybl yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- yn gyffredinol, mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda;
- darperir amrywiaeth dda o brofiadau dysgu cyffrous;
- ethos ysgol gynhwysol; a
- hyrwyddir iechyd a lles disgyblion yn dda a theimlant yn hapus a diogel yn yr ysgol

Rhagolygon gwella

Mae gan yr ysgol ragolygon gwella da oherwydd:

- pennaeth, dirprwy bennaeth a staff ymroddedig sy'n rhannu'r un weledigaeth ac yn cydweithio'n dda i gyflawni eu dyheadau;
- bod y rhanddeiliaid i gyd yn cyfrannu tuag at y broses hunan arfarnu effeithiol, sydd yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer y cynlluniau datblygu ysgol; a
- mae corff llywodraethol brwdfrydig, cefnogol ac effeithiol sy'n cyflawni ei ddyletswyddau yn gydwobodol.

Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i'r ysgol:

A1 godi safonau ysgrifennu disgyblion mewn Saesneg ar draws y cwricwlwm;

A2 gyflymu cynnydd disgyblion mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 2; a

A3 sicrhau y lledaenir yr arferion addysgu gorau trwy'r ysgol

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredol i ddangos sut bydd yr ysgol yn mynd i'r afael â'r argymhellion

Prif ganfyddiadau

| |
|---|
| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? |
|---|

| |
|-----------|
| Da |
|-----------|

Safonau: Da

Pan fyddant yn cychwyn yn yr ysgol mae lefelau medrau disgyblion yn amrywio'n fawr, gyda lleiafrif ag anghenion addysgol arbennig. Er hynny, mae'r rhan fwyaf yn cyflawni'r deilliannau disgwylidig am eu hoedran erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn enwedig yn wir am eu medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg wrth ystyried na ddaw y rhan fwyaf o ddisgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith.

Yn y ffrwd Saesneg, mae bron pob un disgybl ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud ac yn siarad yn hyderus, gyda disgyblion eraill ac oedolion. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen a darllen a deall erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae safonau mewn ysgrifennu yn y ddau gyfnod allweddol yn gyffredinol dda, ond nid yw disgyblion yn gyson yn cynhyrchu darnau ysgrifenedig estynedig a llawn dychymyg.

Mae agwedd y disgyblion tuag at Gymru a dysgu Cymraeg yn gadarnhaol. Mae'r rhan fwyaf yn y ffrwd Gymraeg yn datblygu eu medrau cyfathrebu yn dda. Mae eu sgiliau darllen yn dda a chynhyrchant enghreifftiau cyffrous o ysgrifennu estynedig ar gyfer gwahanol bwrpasau. Mae dealltwriaeth disgyblion o Gymraeg ail iaith yn datblygu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen, ond yng nghyfnod allweddol 2 mae eu medrau llefaredd yn llai datblygedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion gydag anghenion addysgol arbennig a'r rheiny yn y dosbarth DCDA yn gwneud cynnydd da ac fe elwant yn sylweddol o gael eu

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Sirol Llanfair ym Muallt
Mis Gorffennaf 2011

hintegreiddio yn rheolaidd i'r brif ffrwd. Dros y ddwy flynedd diwethaf mae disgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n deilwng i dderbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio'n dda hefyd.

Mae perfformiad disgyblion yn y dangosydd pwnc craidd (DPC), y lefel disgwylidiedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, wedi gwella dros y ddwy flynedd ddiwethaf yng nghyfnod allweddol 1 ac mae nawr yn uwch na chyfartaleddau cenedlaethol a sirol ond yn is na'r teulu o ysgolion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r DPC wedi bod yn uwch na chyfartaleddau cenedlaethol, lleol a 'r teulu am y tair allan o'r pedair blynedd diwethaf.

Yn asesiadau athrawon yn 2010, pan nad ystyrir disgyblion o'r dosbarth DCDA, mae pob un disgybl yng nghyfnod allweddol 1 wedi cyflawni'r DPC ac mae bron pob un wedi gwneud hynny yng nghyfnod allweddol 2. Mae hyn yn rhoi'r ysgol yn yr ail chwarterl wrth gymharu ag ysgolion eraill. Mae tystiolaeth arolwg yn dangos, pan nad ystyrir y disgyblion yn y dosbarth DCDA, mae'r ysgol wedi cyflawni'n dda yn ystod y blynyddoedd blaenorol.

Ers 2007, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r lefelau disgwylidiedig ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn amrywio cryn lawer o flwyddyn i flwyddyn. Yn gyffredinol, nid yw bechgyn yn cyflawni cystal â merched, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2. Er hynny, yn 2010 cyflawnodd y bechgyn yn llawer gwell na merched yng nghyfnod allweddol 1.

Lles: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, ddiogel, hapus a gofalgarg ac mae mwynhad disgyblion a'u cyfranogiad gweithredol i fywyd yr ysgol yn nodweddiol cryf.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth gref bod bwyta'n iachus a chadw'n heini yn cyfrannu tuag at gorff a meddwl iach. Dangosant hefyd wybodaeth a dealltwriaeth dda o reolau ynglŷn â lles a diogelwch, a'r dylanwadau all gael effaith ar fywyd iach.

Mae agweddau y rhan fwyaf o ddisgyblion tuag at ddysgu yn dda. Cymerant gyfrifoldeb brwdfrydig ac effeithiol am eu dysgu eu hunain, a chefnogant ei gilydd yn dda iawn yn ystod y gwersi a gweithgareddau.

Mae presenoldeb dros y flwyddyn yn 94% ar gyfartaledd, ac mae hyn yn uwch na'r cyfartaleddau cyffredinol. Mae prydlondeb wrth gyrraedd yr ysgol ac mewn gwersi yn gyffredinol dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda; maent yn foesgar, croesawus ac yn frwdfrydig iawn i drafod rhinweddau'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn dangos parch mawr tuag at ei gilydd. Maent yn falch iawn o'u hysgol ac o'r gymuned glos o fewn yr ysgol. Mae un gwaharddiad dros dro o bum diwrnod wedi bod yn y pedair blynedd diwethaf.

Mae cyngor yr ysgol yn effeithiol ac mae cyfrifoldebau aelodau'n glir. Maent yn weithgar iawn ac yn hyderus bod nifer o argymhellion y cyngor yn cael eu hystyried a'u gweithredu.

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Sirol Llanfair ym Muallt
Mis Gorffennaf 2011

Mae'r disgyblion yn elwa o ymweliadau rheolaidd â'r gymuned leol, busnesau a siopau lleol fel rhan o'u gwaith mewn nifer o ardaloedd y cwricwlwm.

| | |
|--|-----------|
| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|--|-----------|

Profiadau dysgu: Da

Cynllunnir yn ofalus amrywiaeth eang o brofiadau dysgu i ysgogi diddordeb y disgyblion yn dda. Mae arfer dda yn y Cyfnod Sylfaen yn darparu sylfeini cadarn ar gyfer datblygu dysgwyr annibynnol. Cyfoethogir profiadau dysgu ymhellach trwy ystod eang o weithgareddau allgyrsiol.

Rhoddir pwyslais da ar hyrwyddo medrau o fewn gwersi a darparir cyfleoedd bron ymhob dosbarth i ddisgyblion nodi pa fedrau allweddol a ddefnyddir. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw'r gwaith yn ddigon heriol i ymestyn medrau Cymraeg ail iaith disgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo'n llwyddiannus y dimensiwn Cymreig, er enghraifft trwy ymweliadau â chanolfan yr Urdd yn Llangrannog a Llancaiach Fawr. Cynhelir eisteddfod ysgol yn flynyddol ac mae'r ysgol yn hyrwyddo'n llwyddiannus artistiaid ac ysgrifenywyr Cymreig, fel Kyffin Williams ac Angharad Tomos.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth byd eang yn nodwedd amlwg o'r ysgol. Gwneir defnydd effeithiol o diroedd yr ysgol i dyfu amrywiaeth o lysiau ac mae disgyblion yn siarad yn frwdfrydig iawn am y prosiectau hyn, a hyrwyddir drwy bartneriaethau effeithiol gyda rhieni, y gymuned ac asiantaethau allanol. Mae'r ysgol yn gweithredu mewn modd cynaliadwy ac, o dan arweiniad Pwyllgor Eco gweithgar, mae ymrwymiad disgyblion i'r mesurau yma yn gryf. Mae disgyblion yn gyfarwydd gydag amgylchiadau, arferion a thraddodiadau gwledydd gwahanol, fel Eritrea, Ethiopia a Seland Newydd. Dangosant empathi tuag at achosion da yn y trydydd byd trwy gasglu arian yn rheolaidd.

Addysgu: Da

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau dysgu ysgogol ac amrywiaeth o adnoddau i weithio'n agos gyda, a herio disgyblion yn eu dysgu. Yn y gwersi gorau, mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol, yn rhannu amcanion dysgu yn dda ac yn cyflwyno sesiynau mewn modd bywiog a chlir. Gwneir defnydd effeithiol o gwestiynau penagored i ddatblygu medrau meddwl disgyblion. Yn yr ychydig wersi ble nad yw'r addysgu mor effeithiol, mae hyn fel arfer oherwydd diffyg cyflymder a her ac nid yw gwaith yn diwallu yn llawn anghenion dysgu pob disgybl.

Yn y gwersi gorau, mae athrawon yn defnyddio cymorthyddion dosbarth yn dda i gefnogi disgyblion, ond anghyson yw'r arfer hwn. Mae gan rai cymorthyddion dosbarth arbenigedd mewn agweddau o lythrennedd a rhifedd a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, gan roi yn aml sylwadau cadarnhaol ar gyfer gwella. Gwna'r ysgol ddefnydd da o asesiadau athrawon i dracio

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Sirol Llanfair ym Muallt Mis Gorffennaf 2011

cynnydd disgyblion ac i dargedu unigolion a grwpiau o ddisgyblion ar gyfer cymorth ychwanegol. Mae'r systemau ar gyfer cymedroli asesiadau athrawon wedi eu datblygu'n dda ar lefel grŵp blwyddyn, cyfnod allweddol ac ysgol gyfan, gan sicrhau bod barnau yn sicr. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn dechrau cael dylanwad positif ar safonau..

Mae adroddiadau i rieni yn cynnwys y wybodaeth briodol. Mae targedau disgyblion unigol yn ffocysu ar ardaloedd ar gyfer gwella ac yn eu hannog i wella eu perfformiad eu hunain.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae trefniadau effeithiol ar gael i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Anogir disgyblion i fynegi barn, i gyfrannu'n effeithiol at ddatblygiadau o fewn yr ysgol ac i fod ynghlwm â gweithgareddau yn y gymuned leol. Ceir darpariaeth dda ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Cynllunnir Addysg Personol a Chymdeithasol yn ofalus ac mae'n chwarae rhan bwysig yn y cwricwlwm.

Mae ymdriniaeth ysgol gyfan â rheolaeth ymddygiad cadarnhaol yn darparu fframwaith da i'r disgyblion i gyd i gefnogi datblygiad moesol. Mae'r disgyblion ynghlwm â sefydlu rheolau dosbarth ac maent yn deall rheolau'r ysgol yn dda. Gwneir defnydd da o wasanaethau arbenigol ac mae cysylltiadau gydag asiantaethau arbenigol yn nodwedd gref o'r ysgol. Mae ymdriniaeth ragweithiol gan y pennaeth wrth hyrwyddo presenoldeb a phrydlondeb ac mae cyfundrefnau'r ysgol yn drylwyr iawn.

Mae gan yr ysgol bolisi a systemau priodol ar gyfer diogelu disgyblion. Mae pob aelod o'r staff yn gwybod amdanynt ac mae disgyblion yn gwybod at bwy i droi mewn argyfwng.

Mae cefnogaeth i ddisgyblion gydag anghenion addysgol arbennig yn un o gryfderau'r ysgol. Mae'r polisiau a'r cyfundrefnau'n glir, cynorthwyol ac yn ffocysu ar bob disgybl fel unigolyn. Darperir cefnogaeth dda i'r disgyblion hynny gyda Saesneg fel iaith ychwanegol a'r rhai yn y DCDA. Er bod yr ysgol yn dynodi disgyblion mwy galluog a thalentog mae'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn y cyfnod cynnar o gael ei ddatblygu.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae ethos cryf o fewn yr ysgol sy'n hyrwyddo teimlad o berthyn, parch at ei gilydd a chydaddoldeb yn effeithiol. Mae'r ysgol yn annog pob disgybl i fod ynghlwm yn llawn â bywyd yr ysgol. Gwerthfawrogir a dathlir gwahaniaethau a mwynha disgyblion gyfleoedd da i ysgwyddo cyfrifoldeb.

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol ble caiff pob disgybl ei drin fel unigolyn ac fe ddynodir yn glir ac fe ymdrinnir ag anghenion disgyblion. Hyrwyddir cyfle cyfartal yn weithredol trwy'r ysgol ac mae bron pob un disgybl yn adrodd bod yr ysgol yn mynd i'r afael ag unrhyw ymddygiad gormesol yn ddiymdroi ac yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau o ansawdd uchel sy'n cael eu defnyddio'n dda. Datblygwyd yr ystafelloedd mewnol mewn modd creadigol a llawn dychymyg.

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Sirol Llanfair ym Muallt
Mis Gorffennaf 2011

Mae'r adeilad yn diwallu anghenion disgyblion yn dda ac mae safon uchel yr arddangosfeydd dosbarth yn helpu i greu amgylchedd dysgu cyfoethog. Mae bron pob un disgybl yn gwerthfawrogi ansawdd a digonedd yr adnoddau dysgu, fel llyfrau, offer a'r ystafell gyfrifiaduron newydd.

| | |
|--|-----------|
| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|--|-----------|

Arweinyddiaeth: Da

Mae gan yr ysgol synnwyr cyfeiriad clir a diwylliant sy'n ymdrechu i wella. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arwain yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel. Ceir cyfarfodydd staff a sesiynau hyfforddi ysgol gyfan sydd wedi eu cynllunio'n dda ac yn ffocysu'n llwyddiannus ar flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwelliant. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynorthwyo staff i ddatblygu dealltwriaeth a rennir o'u rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â strategaethau a chynlluniau'r ysgol.

Dadansoddir data yn dda a'i ddefnyddio yn effeithiol i fonitro perfformiad ar draws yr ysgol. Mae cyfundrefnau rheoli perfformiad ar gael ar gyfer y staff dysgu. Mae targedau ar gyfer aelodau o staff unigol yn perthnasu'n uniongyrchol i flaenoriaethau gwella ysgol ac anghenion unigolion. Mae'r cyfundrefnau hyn yn cefnogi cyflenwi effeithiol o gynlluniau datblygu'r ysgol.

Mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth dda o'i rôl ac mae'n cefnogi 'r ysgol fel ffrind beirniadol. Mae ganddo ddealltwriaeth dda o sut mae'r ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion eraill tebyg. Mae'n dadansoddi data perthnasol yn briodol ac yn ymwybodol o'r materion sy'n deillio ohonynt. Mae gan yr ysgol bolisiau a chyfundrefnau i ddelio gyda chwynion ac fe gyhoeddir y rhain yn glir mewn dogfennaeth ysgol.

Mae cynllunio datblygu ysgol yn ystyried blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda ac yn eu hymgorffori mewn strategaethau priodol. Er enghraifft, mae hyfforddiant staff ar y Cyfnod Sylfaen wedi arwain at baratoi a darparu mwy effeithiol ar gyfer derbyn plant o'r ysgol feithrin. Mae egwyddorion Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgol yn nodwedd gref o flaenoriaethau gwella'r ysgol.

Gwella ansawdd: Da

Medda'r ysgol gyfundrefnau hunanarfarnu wedi ei sefydlu'n dda sydd yn ffocysu'n llwyddiannus ar safonau disgyblion. Cynnwys y cyfundrefnau hyn ddadansoddiad trylwyr o ddata perfformiad, monitro darpariaeth ysgol ac adolygu pob agwedd o waith yr ysgol. Mae pob aelod o staff yn cyfrannu'n effeithiol at y trefniadau hyn. Ystyrir barn disgyblion, rhieni a llywodraethwyr ac mae'r ysgol yn fanwl gywir yn asesu ei chryfderau a'i gwendidau.

Mae cynlluniau gwella yn cynnwys ystod eang o weithredoedd ac yn dynodi aelod o'r staff â chyfrifoldeb am eu cyflenwi. Maent hefyd yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir a therfynau amser clir ddiffiniedig ar gyfer gwerthuso a chwblhau. Yn gyffredinol,

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Sirol Llanfair ym Muallt Mis Gorffennaf 2011

mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth weithredu argymhellion yr arolwg blaenorol.

Mae'r ysgol yn datblygu i fod yn gymuned ddysgu gref gyda diwylliant egniol o gydweithio ymysg y staff, sy'n ystyried ac yn gwerthuso eu harfer eu hunain yn rheolaidd. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Cydweithia staff yn helaeth gydag ysgolion eraill yn y clwstwr ac maent ynghlwm â phedair cymuned ddysgu broffesiynol, sy'n cael effaith lwyddiannus ar addysgu a dysgu.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau gyda'r gymuned leol a'r teulu o ysgolion lleol. Mae trefniadau pontio rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd leol yn dda. Mae cysylltiadau gyda'r Cylch Meithrin lleol wedi ei sefydlu'n dda ac mae staff a disgyblion yn ymweld yn rheolaidd â'r ysgol. Mae'r bartneriaeth gyda rhieni yn gryf ac mae rhieni yn cefnogi'r holl weithgareddau a ddarperir. Dywedant eu bod yn derbyn gwybodaeth reolaidd am gynnydd eu plant, er enghraifft, trwy lythyrau a gwefan yr ysgol. Mae ymwelwyr o'r gymuned yn cyfrannu'n rheolaidd at fywyd yr ysgol ac mae'r disgyblion yn ymweld yn aml â lleoedd o ddiddordeb.

Cynhelir cysondeb mewn cymedroli a safonau ar draws yr ysgol drwy gymedroli ar y cyd waith disgyblion pob blwyddyn academaidd. Mae gan y clwstwr o ysgolion gyfundrefnau effeithiol ar gyfer cymedroli a safoni gwaith disgyblion yn gywir ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Rheoli adnoddau: Da

Rheolir yn dda'r adnoddau a ddyrennir i'r ysgol gan arweinwyr a rheolwyr a sicrhau trefniadau staffio priodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae cydweddiad da rhwng blaenoriaethau ysgol a phenderfyniadau ynglŷn â gwariant. Mae trefniadau priodol ar gael ar gyfer arfarnu a rheoli perfformiad a gwneir defnydd effeithiol o amser cynllunio, paratoi ac asesu sydd ar gael i athrawon.

Mae'r corff llywodraethol yn cadw golwg gwyliadwrus ar y gyllideb ac yn gwneud penderfyniadau synhwyrol ynglŷn â staffio a maint dosbarthiadau.

Oherwydd yr addysgu effeithiol cyffredinol, sy'n hyrwyddo safonau a lles disgyblion yn llwyddiannus, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cwblhaodd saith deg pump o rieni'r holiadur ac mae bron pob un yn fodlon iawn â'r ysgol. Dywed bron pob un bod eu plant wedi derbyn cymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuasant yn yr ysgol ac mae pob un yn cadarnhau bod eu plant yn teimlo'n ddiogel yno. Mae bron pob un yn ystyried bod yr addysgu'n dda, bod athrawon yn disgwyl bod eu plant yn gweithio'n galed a'u bod yn annog eu plant i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf yn credu bod gwaith cartref yn briodol a'u bod yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant. Mae bron pob un yn datgan bod yr ysgol yn helpu eu plant i aeddfedu ac i ysgwyddo cyfrifoldeb a bod yr ysgol yn darparu cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. Teimla'r rhan fwyaf o rieni eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion; bod amrywiaeth da o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau; ac mae bron pob un yn datgan bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae llawer yn teimlo bod eu plant wedi eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf. Mae bron pob un yn gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, i wneud awgrymiadau neu nodi problem; a chredant fod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. Mae bron pob un yn datgan bod eu plant yn gwneud cynnydd da.

Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd can pum deg wyth o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr holiadur a siaradodd y tîm a disgyblion eraill yn ystod yr arolwg. Mae pob un yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae bron pob un yn datgan bod yr ysgol yn ymdrin â bwlio'n dda a bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach. Mae bron pob un yn gwybod gyda phwy y gallant siarad os ydynt yn poeni neu os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd, a bod digon o adnoddau ar gael gan yr ysgol. Mae bron pob un yn meddwl bod athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac mae'r rhan fwyaf ohonynt hefyd yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae traean o'r disgyblion yn ystyried bod ymddygiad plant eraill yn amharu ar eu gallu i wneud eu gwaith ac nid yw ychydig yn credu bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Atodiad 2

Y tîm arolygu

| | |
|-----------------------|-----------------------|
| Dr David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Eleri Hurley | Arolygydd Tîm |
| Mrs Deris Williams | Arolygydd Lleyg |
| Mrs Helen Rowe | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mr Eurig Towns | Enwebai'r Ysgol |

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| | | | | | | | |
|-----------|-----|-----|-----|-----|-----|------|-------|
| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| | | | | | | | |
|-----------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|
| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|--------------------|---------------------------|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |